Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Dyffryn yr Enfys

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae arweinwyr Ysgol Dyffryn yr Enfys wedi sefydlu gweledigaeth ac ethos cadarn yn seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu ysgogol a chyfoethog sy'n hybu disgyblion i ffynnu ac ymgolli yn eu dysgu. Mae gan y tîm cydwybodol o staff ddisgwyliadau uchel ac maent yn cydweithio'n ddiwyd i ddatblygu'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau'r lles a chynnydd gorau posibl ar gyfer pob disgybl.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol sy'n symud y dysgu yn ei flaen yn llwyddiannus. Maent yn meithrin perthynas weithio dda â disgyblion ac maent yn adnabod eu hanghenion yn dda. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu. At ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith.

Mae'r profiadau dysgu diddorol a chyfoethog yn hybu datblygiad medrau llythrennedd a digidol disgyblion yn bwrpasol, ac maent yn cymhwyso eu medrau'n hyderus ar draws y cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau siarad Cymraeg disgyblion yn gryfder amlwg. Defnyddir cyfleoedd cyson i gyfoethogi iaith y disgyblion yn bwrpasol ac mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn siaradwyr Cymraeg medrus. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd dros amser. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau data yn llawn.

Mae arweinwyr yn monitro ansawdd y ddarpariaeth yn barhaus ac yn ymateb yn gadarn i agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r corff llywodraethol yn hynod gefnogol i'r ysgol ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'u cyfrifoldebau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gryf. Mae staff yn adnabod disgyblion sydd angen cefnogaeth yn fuan ac yn darparu rhaglenni cefnogi amserol. Mae staff yn cydweithio'n agos â rhieni er mwyn monitro cynnydd ac adnabod y camau nesaf yn y dysgu.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 2 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu'r ystod lawn o fedrau data**

**A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut y maent yn cyflawni tasgau a chyflwyno eu gwaith**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/07/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.